## PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU NEWID SEFYDLIADOL
## 9 HYDREF 2017

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ddydd Llun, 9 Hydref 2017.

**YN BRESENNOL: Cynghorydd Dave Mackie (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Janet Axworthy, Marion Bateman, Ian Dunbar, Mared Eastwood, Tudor Jones, Brian Lloyd, Mike Reece, Paul Shotton a David Wisinger

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd Kevin Hughes (yn lle Veronica Gay)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr: Bernie Attridge a Patrick Heesom

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Aaron Shotton, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Cyllid; y Cynghorydd Billy Mullin, Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol ac Asedau; Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 1); Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 2) a'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau ac Addysg.

### 22. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

### 23. RHAGOLWG ARIANNOL A CHAM CYNTAF CYLLIDEB 2018/19

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol yr adroddiad a oedd yn amlinellu'r rhagolwg ariannol cyfredol ar gyfer 2018/19 yn ogystal â'r pwysau ariannol a'r opsiynau newydd ar gyfer y portffolio Newid Sefydliadol.

Diwygiwyd y rhagolwg ariannol a oedd wedi'i nodi yn adran 1.04 yr adroddiad, i ystyried y penderfyniadau a wnaed fel rhan o gyllideb 2017/18, a'i ddiweddaru â'r wybodaeth ddiweddaraf o ran pwysau gan bortffolios gwasanaeth. Defnyddiwyd setliad yr un fath neu debyg i waelodlin ariannol 2017/18 fel sail ar gyfer cyfrifo'r rhagolwg ar gyfer 2018/19 ac nid oedd unrhyw fodel ar gyfer codi lefelau Treth y Cyngor wedi'i gynnwys yn ystod y cam hwn.

Daeth y Rheolwr Cyllid Corfforaethol i'r casgliad bod cam un y cynigion ar gyfer y portffolio gwasanaeth yn cael eu cyflwyno drwy gydol mis Hydref i'w hadolygu gan yr holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Roedd y Setliad Llywodraeth Leol Cymru dros dro i'w gyhoeddi ar 10 Hydref, 2017. Roedd y setliad terfynol i'w gyhoeddi'n ddiweddarach yn y flwyddyn galendr, yn dilyn datganiad cyllideb Canghellor y Trysorlys ar 22 Tachwedd 2017.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 1) i gyflwyno'r Datganiad Atgyfnerthu a'r Modelau Gweithredu ar gyfer y portffolio Newid Sefydliadol.

**Newid Sefydliadol 1**

Amlinellodd y Prif Swyddog y Datganiad Atgyfnerthu, sydd ynghlwm wrth yr adroddiad, a oedd manylu ar yr arbedion effeithlonrwydd a oedd wedi'u gwneud hyd yma ac effeithiau'r arbedion effeithlonrwydd hyn ar y gwasanaethau o fewn y portffolio Newid Sefydliadol 1. Manylodd y Prif Swyddog ar yr arbedion effeithlonrwydd arfaethedig o £416,000 ar gyfer 2018-19, sydd wedi'u nodi ym Model Gweithredu'r Dyfodol yn Atodiad 1. Roedd yr arbedion effeithlonrwydd arfaethedig yn cynnwys, parhau â chynllun busnes y flwyddyn flaenorol ar gyfer Hamdden, Llyfrgelloedd a Threftadaeth, i ddatblygu cwmni sy'n eiddo i'r gweithwyr.

Croesawodd y Cynghorydd Aaron Shotton, Arweinydd y Cyngor, y Datganiadau Atgyfnerthu a oedd yn cael eu cyflwyno i bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Roeddent yn ddefnyddiol iawn ar gyfer meincnodi'r arbedion effeithlonrwydd hyd yma ac amlygu'r risgiau i feysydd gwasanaeth. Amlinellodd y bwlch cyllido presennol o £11.7M gan nodi mai cyfanswm cynigion cyllideb cam un ar hyn o bryd oedd £3M a oedd felly'n amlygu'r heriau i ddod. Soniodd hefyd am yr angen i barhau i lobïo'r Llywodraeth Genedlaethol i amlygu effeithiau caledi.

Croesawodd y Cadeirydd y broses ymgynghori ar y gyllideb gyda Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu a oedd yn rhoi cyfle i Aelodau ddylanwadu ar benderfyniadau terfynol o ran y gyllideb.

Diolchodd y Cynghorydd Ian Dunbar i'r swyddogion am y diweddariad o ran y sefyllfa ariannol ac fe groesawodd y cynnydd o ran nifer yr ymweliadau i lyfrgelloedd Sir Y Fflint. Hefyd, fe wnaeth sylw ar y ffaith bod llai o arian yn cael ei roi i Theatr Clwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru a gofynnodd a fyddai'n rhaid i'r Cyngor gyfrannu mwy o arian oherwydd hyn. Eglurodd y Prif Swyddog bod Cyngor Celfyddydau Cymru hefyd o dan bwysau i ganfod arbedion effeithlonrwydd a lleihau ei gyllideb. Dywedodd y byddai'n rhaid i'r Theatr ddelio ag unrhyw ostyngiad o ran cyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac ar hyn o bryd roedd yn gweithio ar ddewisiadau i wneud y mwyaf o incwm.

Mewn ymateb i gwestiwn am daliadau gwasanaeth gan y Cynghorydd Paul Shotton, dywedodd y Prif Swyddog bod y ffioedd o fewn y gwasanaeth hamdden yn gymharol â siroedd eraill ar draws Gymru. Amlinellodd ffyrdd eraill i Ganolfannau Hamdden Aura greu mwy o incwm, gan gynnwys y cyfle i gyflwyno gweithgareddau newydd a ffioedd aelodaeth.

Gofynnodd y Cynghorydd Kevin Hughes, a oedd hi'n bosibl i'r Theatr ystyried noddi masnachol fel ffordd o ostwng cyfraniadau ariannol y Cyngor yn y dyfodol. Cwestiynodd hefyd, pan fod y sesiynau nofio am ddim i unigolion dros 60 mlwydd oed, roedd yn sicr na fyddai gan y rhan fwyaf ohonynt ots am dalu am y sesiynau hyn. Eglurodd y Prif Swyddog bod y Cyngor yn darparu gwersi nofio am ddim i unigolion dros 60 mlwydd oed drwy gyllid Llywodraeth Cymru a chytunodd y dylid cynnal trafodaeth genedlaethol yn y dyfodol i asesu a oedd hyn yn fforddiadwy. Dywedodd hefyd bod yn Theatr yn canolbwyntio ar sut i wneud y mwyaf o gyllid nawdd ac elusennol yn flynyddol.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 2) i gyflwyno'r Datganiad Atgyfnerthu a'r Modelau Gweithredu ar gyfer y portffolio Newid Sefydliadol.

**Newid Sefydliadol 2**

Amlinellodd y Prif Swyddog y Datganiad Atgyfnerthu, sydd ynghlwm wrth yr adroddiad, a oedd manylu ar yr arbedion effeithlonrwydd a oedd wedi'u gwneud hyd yma ac effeithiau'r arbedion effeithlonrwydd hyn ar y gwasanaethau o fewn y portffolio Newid Sefydliadol 2. Manylodd y Prif Swyddog hefyd ar yr arbedion effeithlonrwydd arfaethedig o £286,000 ar gyfer 2018-19, fel y nodwyd o fewn Model Gweithredu'r Dyfodol (Atodiad 2). Roedd yr arbedion effeithlonrwydd arfaethedig yn cynnwys ailstrwythuro Gwasanaethau Cynnal Eiddo Corfforaethol a Gwasanaethau Dylunio a Rheoli Prosiectau.

Croesawodd y Cynghorydd Ian Dunbar y cynnydd o ran nifer y prydau ysgol a'r nifer oedd yn manteisio ar brydau ysgol am ddim a gofynnodd a oedd ystyriaeth wedi'i roi i estyn gwaith Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau NEWydd i weithio ar y cyd â'r Gwasanaeth Tai mewn tai gwag. Cadarnhaodd y Prif Swyddog y byddai'r gwaith ar eiddo gwag yn ffurfio rhan o gynllun busnes statudol Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau NEWydd yn y dyfodol.

Gwnaeth y Cynghorydd Marion Bateman sylw ar y cynigion posibl i ad-leoli staff o Neuadd Y Sir a gofynnodd a oedd cynigion i ad-leoli staff o Swyddfeydd Y Fflint. Eglurodd y Prif Swyddog bod gwaith wedi'i wneud i gyfuno'r gwasanaethau cymdeithasol a swyddogion tai yn Swyddfeydd y Fflint a bod hyn wedi caniatáu iddynt ddelio ag achosion yn brydlon. Roedd ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i adleoli staff o Neuadd Y Sir gan fod y gofod swyddfa presennol yn aneffeithlon â chostau cynnal blynyddol o oddeutu £1.5M.

Gofynnodd y Cynghorydd Tudor Jones a oedd ystyriaeth wedi'i roi i amddiffyn gwasanaethau mewn cymunedau pe bai'r Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol yn methu yn y dyfodol. Gwnaeth y Prif Swyddog sylw (Newid Sefydliadol 1) ar y prif drosglwyddiadau ased cymunedol, sef Pwll Nofio Cei Connah a Chanolfan Hamdden Treffynnon a dywedodd bod y Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu cyllid ar eu cyfer am dair blynedd gyda bwriad o ostwng cyllid hwnnw dros y cyfnod o dair blynedd. Nid yw'r gyllideb ar gyfer 2018/19 yn cynnig gostyngiad o ran y gyllideb. Dywedodd ei bod hi'n bwysig ystyried ein camau gweithredu pe byddai'r trosglwyddiad ased cymunedol yn methu a sicrhau bod refeniw a chefnogaeth barhaus ar gael i leihau'r risg hwnnw. Dywedodd bod y trosglwyddiadau ased cymunedol yn perfformio'n dda ar hyn o bryd.

Gwaeth y Cynghorydd Shotton sylw ar gylch gorchwyl y Pwyllgor a swyddogaeth y Pwyllgor hwn, sef craffu a monitro perfformiad trosglwyddiadau ased cymunedol. Dywedodd bod y Cyngor wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gyda grwpiau cymunedol i amddiffyn a diogelu gwasanaethau.

Diolchodd y Cadeirydd wrth y Prif Swyddogion am eu gwaith o fewn eu portffolios ac fe dynnodd sylw penodol at yr effaith gadarnhaol yr oedd y Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol wedi'u cael o ran diogelu gwasanaethau mewn cymunedau ar draws Sir Y Fflint.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn fodlon â'r agwedd a gymerir at y Gyllideb o fewn y portffolios Newid Sefydliadol.

## 24. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 yp a daeth i ben am 3.05 yp)

...................................................

**Cadeirydd**